Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Hiraddug
# Thomas Avenue
# Dyserth
# Sir Ddinbych
# LL18 6AN

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 01/12/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Hiraddug yn Ysgol Gynradd Gymunedol a gynhelir gan yr awdurdod lleol ym mhentref Dyserth, ym mhen gogledd ddwyreiniol dyffryn Clwyd yn Sir Ddinbych. Mae’r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed mewn wyth o ddosbarthiadau.

Mae 210 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 15 sy’n mynychu’r feithrinfa yn rhan-amser.

Mae tua 14% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hynny islaw’r cyfartaledd cenedlaethol. Mae’r ysgol yn nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan 17% o ddisgyblion. Mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan ychydig iawn o ddisgyblion. Nid yw’r un disgybl yn siarad Cymraeg fel ei iaith gyntaf.

Ymgymerodd y pennaeth â’i swydd ym Medi 2003. Ym Mawrth 2012 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Hiraddug yn 2015-2016 yw £3,590. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych yw £8,860 a'r lleiafswm yw £2,933. Mae Ysgol Hiraddug yn safle 34 o’r 46 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Mae bron yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Mae lefelau presenoldeb yn uchel ac yn cymharu'n dda â lefelau ysgolion tebyg
- Mae agwedd gadarnhaol at ddysgu gan yr holl ddisgyblion bron, maent yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch a chonsyrn at rai eraill
- Mae athrawon yn darparu ystod ddiddorol a difyr o brofiadau dysgu sy'n diddori ac yn cymell disgyblion
- Mae gan athrawon yn y Cyfnod Sylfaen ddealltwriaeth gadarn o arfer dda yn y Cyfnod Sylfaen
- Ceir trefniadau da i gynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed
- Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar iawn sydd wedi ymrwymo'n gadarn i les ei disgyblion
- Mae staff yn darparu cyfleoedd da iawn i ddisgyblion ddatblygu eu haddysg ysbrydol, cymdeithasol, moesol a diwylliannol
- Mae disgyblion yn elwa o'r llu o adnoddau o ansawdd da sy'n cefnogi eu dysgu yn dda
- Mae athrawon yn gwneud defnydd da o'r ardal awyr agored helaeth a'r amgylchedd lleol i ddarparu profiadau dysgu diddorol i ddisgyblion
- Mae trefniadau da ar waith gan yr ysgol i gynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Mae gweledigaeth gadarn gan y pennaeth i greu cymuned ddysgu rymus i ddisgyblion
- Mae uwch arweinwyr yn cefnogi'r pennaeth yn effeithiol
- Mae staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda ac yn gweithio'n llwyddiannus â'i gilydd fel tîm
- Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau, diffygion a blaenoriaethau'r ysgol yn y dyfodol
- Mae system hunanarfarnu effeithiol gan yr ysgol sy'n nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella yn gywir, ac mae'r rhain yn llywio blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol
- Mae'r cynllun yn offeryn effeithiol o ran sicrhau gwelliannau, er enghraifft yn y safonau y mae bechgyn yn eu cyflawni mewn darllen
- Mae ystod eang o bartneriaethau effeithiol yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniadau a lles disgyblion
- Mae pob un o'r staff yn meddu ar gymwysterau a phrofiad addas, ac maent yn gwneud defnydd da o'u harbenigedd er budd disgyblion

## Argymhellion

A1 Gwella gallu disgyblion i ysgrifennu'n greadigol yn estynedig

A2 Gwella medrau darllen Cymraeg disgyblion a'u defnydd o'r Gymraeg y tu allan i wersi.

A3 Galluogi disgyblion i asesu eu cynnydd eu hunain yn erbyn amcanion gwersi a meini prawf llwyddo clir.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn datblygu'n dda fel dysgwyr hyderus a chyfathrebwyr da, yn barod i symud ymlaen at y cam nesaf yn eu haddysg.

Ar draws yr ysgol, mae ansawdd cyffredinol medrau siarad a gwrando disgyblion yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau ac ar syniadau ei gilydd yn ystod gwaith grŵp a thrafodaethau mewn parau. Trwy gydol y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus â'i gilydd ac oedolion. Maent yn defnyddio geirfa ddiddorol, er enghraifft pan fyddant yn sôn am eu siwrneiau i'r ysgol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn mynegi'u barnau yn glir a darbwyllol gan ddefnyddio geirfa sydd wedi'i datblygu'n dda, er enghraifft wrth drafod ymweliad allan o'r ysgol. Maent yn gwneud defnydd da o eirfa arbenigol mewn gwersi fel daearyddiaeth a gwyddoniaeth.

Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da â'u darllen. Maent yn dangos brwdfrydedd ynglŷn â'r medrau y maent yn eu datblygu, ac yn gwneud defnydd da o'u dealltwriaeth ddatblygol o seiniau ffonig. Mae disgyblion sy'n fwy abl yn darllen yn rhugl a gyda mynegiant, gan gynnal diddordeb y gwrandäwr yn effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn trafod y cymeriad yn eu llyfrau gyda diddordeb, ac yn cofio storïau yn dda. Maent yn darllen yn rhugl a gyda mynegiant. Mae disgyblion mwy abl yn llithrddarllen ac yn bwrw golwg ar destunau yn effeithiol i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflym.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen gyda mwy a mwy o hyder ac annibyniaeth at ystod o ddibenion. Er enghraifft, yn y dosbarth derbyn, mae llawer o ddisgyblion yn hapus i roi cynnig ar ysgrifennu am gymeriadau yn eu stori. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae dealltwriaeth dda gan lawer o ddisgyblion o atalnodi sylfaenol a strwythur brawddegau. Maent yn gwneud defnydd da o strategaethau ffonig i gynorthwyo'u sillafu, ac yn defnyddio geirfa ddiddorol, er enghraifft pan fyddant yn disgrifio'r wlithen ffyrnig, ymlithrol yn eu stori doli bapur. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn parhau i adeiladu ar y medrau hyn ac yn sillafu ystod o eiriau sylfaenol a geiriau mwy cymhleth gyda chywirdeb datblygol. Maent yn defnyddio geirfa ddiddorol ac yn gallu cynllunio ac ailddrafftio ei gwaith er mwyn gwella'r canlyniad. Maent yn ysgrifennu at ystod addas o ddibenion, er enghraifft, ysgrifennu'n ddarbwyllol i wneud cais am swydd mewn sw. Mae llawer o ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn cymhwyso'u medrau llythrennedd yn briodol ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ysgrifennu'n annibynnol ac yn greadigol yn estynedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 2 yn dangos ymwybyddiaeth dda o arian. Maent yn gwybod pa ddarnau arian sy'n gwneud hanner can ceiniog, a sut i roi'r newid cywir amser byrbryd. Maent yn mesur hydoedd gan ddefnyddio

metrau a chentimetrau yn gywir, er enghraifft pan fyddant yn mesur pa mor bell y bydd awyren bapur yn hedfan. Mae llawer o ddisgyblion yn llenwi siartiau cyfrif yn gywir ac yn cofnodi data mewn graffiau bloc a siartiau cylch syml. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau mathemategol da yn unol â'u gallu. Mae llawer o ddisgyblion yn deall ffracsiynau a degolion a gallant dalgrynnu rhifau i'r cant a'r mil agosaf. Maent yn deall sut i fesur onglau a pherimedrau a chynllunio cyfesurynnau yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn dda i ddatrys problemau fel amcangyfrif faint o losin 'smarties' sydd mewn bocs, a chostio eitemau ar gyfer gwledd Tsieineaidd yn gywir. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn dda mewn gwaith ar draws y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau siarad Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Maent yn defnyddio Cymraeg fel rhain o'u trefn ddyddiol yn dda, ac yn mwynhau defnyddio ymadroddion a chyfarchion syml, ac ateb cwestiynau sylfaenol fel disgrifio'r tywydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol â'u Cymraeg llafar mewn gwersi. Fodd bynnag, cyfyngedig yw eu defnydd o'r Gymraeg y tu allan i wersi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n alluog at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys llythyrau syml, cofnodion dyddiadur a disgrifiadau ohonynt eu hunain. Maent yn defnyddio cysyllteiriau i ymestyn eu brawddegau yn y gorffennol a'r presennol, yn y person cyntaf a'r trydydd person. Fodd bynnag, nid yw medrau darllen disgyblion wedi'u datblygu gystal yn gyffredinol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau meddwl a datrys problemau yn dda drwy ystod o weithgareddau dosbarth ac allgyrsiol, gan gynnwys prosiect 'Moel Hiraddug'. Mae bron pob un o'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau unigol wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion o ran y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn amrywiol, ond yn gyffredinol mae'n gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros yr un cyfnod, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg a mathemateg yn amrywio uwchlaw ac islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg hefyd, ond mae perfformiad yn gadarnach mewn gwyddoniaeth. Ar y lefel uwch na'r disgwyl, mae perfformiad disgyblion ym mhob un o'r tri phwnc yn dangos tuedd gyffredinol am i fyny, gan symud yr ysgol i'r 50% uwch o ysgolion tebyg.

Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n dda yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

**Lles: Da**

Mae bron yr holl ddisgyblion yn hapus i ddod i'r ysgol, ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol iawn at fywyd ysgol. Yn y rhan fwyaf o wersi, maent yn frwdfrydig ac yn canolbwyntio'n dda ar dasgau. Mae bron yr holl ddisgyblion yn dangos parch ac ystyriaeth tuag at ei gilydd ac maent yn ymddwyn yn dda mewn dosbarthiadau ac o

amgylch yr ysgol.  Mae pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus i fynd at oedolyn gydag unrhyw bryderon.  Mae dealltwriaeth sicr o sut i gadw'n iach gan yr holl ddisgyblion bron, ac maent yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn ystod eang o weithgareddau corfforol.

Mae cyfraddau presenoldeb yn cymharu'n ffafriol â chyfraddau ysgolion tebyg, gan osod yr ysgol yn y 25% uchaf am y ddwy flynedd diwethaf.  Mae bron yr holl ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn cyrraedd yn brydlon.

Mae aelodau o gyngor yr ysgol a'r pwyllgor eco yn falch o'u rolau, ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif.  Maent yn cyfrannu'n briodol at welliannau yn amgylchedd yr ysgol.  Mae disgyblion hŷn yn cyfranogi mewn cynllun 'cyfeillio' gofalgar, gan gefnogi disgyblion iau yn dda.  Mae hyn yn cryfhau cymuned yr ysgol ac yn helpu meithrin ei hethos gofalgar.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn dda.  Mae disgyblion hŷn yn ehangu eu medrau yn effeithiol drwy'r cyfraniadau a wnânt at y gymuned leol, fel eu hymglymiad ym mhrosiect 'Moel Hiraddug'.  Mae disgyblion iau yn datblygu dealltwriaeth werthfawr o barch, gofal a chonsyrn at bobl eraill, o fewn yr ysgol ac yn y byd ehangach.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n diddori ac yn ennyn diddordeb bron yr holl ddisgyblion.  Mae'r rhan fwyaf o'r cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen yn arbennig o effeithiol o ran cynorthwyo dysgu gweithredol disgyblion, dan do ac yn yr awyr agored.  Fodd bynnag, nid yw dull yr ysgol o gynorthwyo datblygiad ffonig disgyblion yn gwbl gyson â'i hethos cadarn yn y Cyfnod Sylfaen.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae ystod o ymweliadau ac ymwelwyr addysgol diddorol yn helpu rhoi dysgu'r disgyblion mewn cyd-destun, ac yn dyfnhau eu dealltwriaeth.  Mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar amrywiaeth drawiadol o glybiau ar ôl ysgol, sy'n hyrwyddo diddordebau a medrau gwahanol, yn cynnwys garddio, canu a chwaraeon.

Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar sicrhau bod parhad a dilyniant wrth ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion.  Mae cynllunio effeithiol yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd da i ddatblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

Ceir darpariaeth dda ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn gwneud defnydd da o strategaethau diddorol ac amrywiol i gynorthwyo datblygiad iaith disgyblion.  Fodd bynnag, cyfleoedd cyfyngedig y mae disgyblion hŷn yn eu cael i ddarllen yn Gymraeg a defnyddio'u medrau siarad y tu allan i'r ystafell ddosbarth.  Mae disgyblion yn cael cyfleoedd da i ddysgu am ddaearyddiaeth, hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft yn ystod ymweliadau â Chaerdydd ac Eryri.

Mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o faterion cynaliadwyedd yn llwyddiannus, er enghraifft, trwy gynnwys disgyblion mewn gweithgareddau ailgylchu, monitro'r defnydd o ynni a thyfu eu cynnyrch eu hunain. Mae cysylltiadau diddorol iawn gydag India a Tsieina yn helpu disgyblion i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth werthfawr o ddiwylliannau ac arferion eraill. Mae hyn yn cyfoethogi ethos gofalgar a pharchus yr ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae gan bob un o'r athrawon wybodaeth bynciol dda a chyfoes, ac maent yn ei defnyddio'n dda i ddarparu ystod eang o weithgareddau dysgu diddorol a difyr. Mae gan athrawon yn y Cyfnod Sylfaen ddealltwriaeth arbennig o gryf o arfer dda y Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad, maent yn darparu llawer o brofiadau dysgu ymarferol effeithiol iawn dan do ac yn yr awyr agored, gan roi cychwyn cadarn i'w haddysg i ddisgyblion. Ar draws yr ysgol, mae staff yn sefydlu perthnasoedd cadarnhaol gyda disgyblion ac yn rheoli eu hymddygiad yn dda. Mae llawer o wersi yn symud ar gyflymder da ac mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth ddiddorol o strategaethau ac adnoddau, gan gynnwys technoleg, i helpu disgyblion i ddysgu. Er bod athrawon yn cynllunio amcanion clir ar gyfer gwersi, nid ydynt yn rhannu'r rhain yn gyson gyda disgyblion, gan gyfyngu ar eu gallu i asesu eu cynnydd eu hunain. Mae disgyblion ledled yr ysgol yn elwa ar y safon uchel iawn o gymorth a ddarperir gan gynorthwywyr addysgu.

Mae pob un o'r athrawon yn marcio gwaith yn rheolaidd ac yn rhoi adborth cadarnhaol. Yn yr achosion gorau, mae athrawon yn nodi'r hyn sydd angen i ddisgyblion ei wneud i wella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod beth yw eu targedau personol ar gyfer gwella, ac mae'r rhain yn cael eu rhannu yn gamau bach defnyddiol yn y Cyfnod Sylfaen. Er bod athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain, nid ydynt yn dweud yn ddigon clir beth sydd angen i ddisgyblion ei wneud i lwyddo. Mae hyn yn cyfyngu ar allu disgyblion i wella eu dysgu eu hunain. Nid yw cyfleoedd disgyblion i asesu perfformiad eu cyfoedion yn ystyrlon wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd trylwyr o wybodaeth asesu i olrhain cynnydd grwpiau gwahanol o ddisgyblion yn effeithiol, gan gynnwys disgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhieni'n gwerthfawrogi ansawdd uchel a natur unigol yr adroddiadau ysgrifenedig a'r adborth a dderbyniant gan yr ysgol. Mae adroddiadau yn bodloni gofynion statudol yn llawn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar iawn gydag ymrwymiad cadarn i les ei disgyblion. Mae trefniadau buddiol ar waith i hybu bwyta ac yfed yn iach. Mae ystod eang o glybiau ar ôl ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i gyfranogi mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo ffordd weithgar ac iach o fyw.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol iawn ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Er enghraifft, mae cysylltiadau rhyngwladol cryf yr ysgol yn datblygu dealltwriaeth ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth ansawdd uchel ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn y Cyfnod

Sylfaen yn arwain at ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Maent yn cael cyfleoedd rhagorol i ddatblygu'u medrau cymdeithasol, fel yn ystod cinio arbennig wrth fwrdd wedi'i osod yn ofalus, gyda gwesteion gwadd. Mae disgyblion o bob oed yn cael cyfleoedd i ymgymryd â chyfrifoldeb a dangos blaengaredd, ac mae ganddynt gysylltiadau cryf â'r gymuned leol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o gyngor a chymorth gan wasanaethau arbenigol. Mae'r cydweithio hwn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at gynnydd, iechyd a lles disgyblion penodol, yn enwedig y rhai a all fod yn agored i dangyflawni.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae staff yn nodi disgyblion y mae angen cymorth arnynt pan maent yn ifanc. Mae system effeithiol ar waith i olrhain a monitro'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu ac athrawon yn rhoi rhaglenni ymyrraeth ar waith yn dda, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion. Mae cynlluniau addysg unigol buddiol gan yr holl ddisgyblion a nodwyd, ac mae athrawon yn adolygu'r rhain yn rheolaidd gyda rhieni a disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos gofalgar a chroesawgar iawn yn yr ysgol, ac mae'r holl ddisgyblion yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys. Mae athrawon yn annog disgyblion i drin ei gilydd yn deg. Maent yn hyrwyddo amgylchedd lle mae staff a disgyblion yn dangos parch ac ystyriaeth at ei gilydd. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod a dathlu amrywiaeth, ac mae'n hyrwyddo cyfle cyfartal yn dda. Mae hyn yn creu ysgol hapus lle mae disgyblion yn mwynhau dysgu ac yn elwa ar y perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda staff, rhieni a'r gymuned ehangach.

Mae adeilad yr ysgol o ansawdd da, yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae disgyblion yn elwa ar ystod helaeth o adnoddau sy'n cefnogi'u dysgu yn dda. Mae'r rhain yn cynnwys dewis eang o lyfrau o ansawdd uchel sydd ar gael ledled yr ysgol, ac ystod eang o adnoddau TGCh y mae disgyblion yn eu defnyddio'n rheolaidd a phwrpasol. Mae adeilad y Cyfnod Sylfaen wedi'i osod allan yn arbennig o dda, gan ddarparu amgylchedd dysgu ysgogol sy'n hyrwyddo safon uchel iawn o ymarfer y Cyfnod Sylfaen. Gwneir defnydd rheolaidd a helaeth gan athrawon o'r ardal awyr agored sydd wedi'i chynllunio'n dda ac yn cynnwys adnoddau wedi'u dewis yn ofalus i ysgogi a chefnogi dysgu disgyblion yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, maent yn creu senarios llawn dychymyg fel ymchwilio i ôl-troed dirgel, sy'n cynorthwyo disgyblion yn effeithiol iawn wrth ddatblygu'u medrau mesur, datrys problemau a thechnoleg gwybodaeth.

Mae arddangosiadau diddorol sydd wedi'u cyflwyno'n ddeniadol ar draws yr ysgol yn dathlu gwaith disgyblion ac yn cefnogi'u dysgu yn dda. Er enghraifft, mae arddangosiadau o ansawdd uchel yn dogfennu cynnydd disgyblion gyda'u medrau llythrennedd a rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen. Mae arddangosiadau yng nghyfnod allweddol 2 yn dathlu dysgu disgyblion yn effeithiol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gweledigaeth gadarn iawn gan y pennaeth ar gyfer gwella'r ysgol. Mae wedi ymrwymo i ddarparu ystod gynhwysfawr o brofiadau dysgu ystyrlon i'r holl ddisgyblion, gan eu galluogi i gyflawni eu potensial llawn mewn bywyd. Mae'r amrywiaeth gyfoethog o brofiadau dysgu sy'n cael eu darparu, yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt, yn adlewyrchu hyn. Mae'r pennaeth yn cyfleu'r weledigaeth hon yn dda i bob un o'r staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni, gan greu ysgol hapus a diwyd yn llwyddiannus, lle mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda ac yn gweithio â'i gilydd yn llwyddiannus fel tîm. Mae uwch arweinwyr yn darparu cymorth gwerthfawr i'r pennaeth, er enghraifft wrth weithredu system rheoli perfformiad effeithiol yr ysgol. Mae hyn yn nodi targedau gwella priodol, wedi'u cysylltu'n glir â'r blaenoriaethau a amlinellir yng nghynllun datblygu'r ysgol, fel gwella safonau mewn darllen.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael yn dda â blaenoriaethau cenedlaethol, fel rhoi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar waith, a gweithio i leihau'r effaith a gaiff amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau a diffygion yr ysgol, a'i blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau. Mae cyflwyniadau ar ddata perfformiad yr ysgol yn sicrhau bod gwybodaeth gadarn gan y llywodraethwyr am sut mae perfformiad yr ysgol yn cymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Maent yn dechrau herio'r ysgol yn briodol fel ffrindiau beirniadol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae system effeithiol ar waith gan yr ysgol i arfarnu ei pherfformiad a nodi meysydd i'w datblygu. Mae'r pennaeth yn gwneud defnydd da o ganlyniadau profion cenedlaethol a gwybodaeth asesu i nodi tueddiadau a chynnydd dros gyfnod ar gyfer pob grŵp o ddisgyblion. Mae trefniadau defnyddiol ar waith, gan gynnwys craffu ar waith disgyblion, i fonitro safonau addysgu a dysgu. O ganlyniad, mae'r ysgol yn nodi blaenoriaethau priodol sy'n arwain at welliannau mesuradwy, fel gwella medrau darllen bechgyn. Mae'r ysgol yn talu sylw da i farnau disgyblion a rhieni, er enghraifft adolygu rheolau'r ysgol mewn ymateb i adborth gan ddisgyblion.

Mae cynllun datblygu buddiol yn ei le gan yr ysgol ar gyfer y tair blynedd i ddod, ac mae'n cysylltu'n glir â'i hunanarfarniad. Mae'r cynllun datblygu yn nodi nifer hydrin o flaenoriaethau a graddfeydd amser realistig. Mae'n dyrannu cyllid yn briodol i ddwyn y camau yn y cynllun yn eu blaen, ac yn canolbwyntio'n dda ar anghenion disgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae'r ysgol yn mynd ati'n rheolaidd i fonitro'r cynnydd a wneir tuag at y blaenoriaethau strategol cytûn, gan sicrhau gwelliant parhaus. Mae hyn i'w weld yn amlwg o'r arfarniad buddiol o gynllun datblygu'r llynedd, sy'n dangos y gwnaed gwelliannau mesuradwy yn erbyn y targedau a nodwyd ar gyfer darllen a mathemateg a rhifedd.

## Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn mwynhau ystod eang o bartneriaethau effeithiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad a lles disgyblion, gan gynnwys disgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Ceir partneriaeth gadarn gyda rhieni, sy'n cefnogi'r ysgol yn dda trwy rannu eu harbenigedd a thrwy godi arian. Er enghraifft, yn ddiweddar codwyd arian gan 'Ffrindiau Ysgol Hiraddug' i brynu storfa awyr agored ychwanegol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a llyfrau darllen newydd.

Mae disgyblion yn elwa ar gysylltiad hir yr ysgol â'r gymuned leol. Er enghraifft, mae cymryd rhan mewn cystadleuaeth siarad cyhoeddus flynyddol ac mewn cystadleuaeth ganu yn cynyddu hyder disgyblion ac yn helpu i ddatblygu eu medrau cyfathrebu cadarn.

Mae cysylltiadau gwerthfawr â'r cylch chwarae ar y safle yn galluogi'r disgyblion ieuengaf i ymgartrefu'n gyflym pan fyddant yn symud i'r feithrinfa. Mae gan yr ysgol bartneriaeth adeiladol gyda'r ysgol uwchradd leol sy'n darparu cymorth buddiol i ddisgyblion wrth iddynt symud i'r cyfnod nesaf o'u haddysg.

Gwneir cyfraniad gwerthfawr iawn gan yr ysgol at ei chlwstwr lleol o ysgolion, er enghraifft rhannu ei gweithdrefnau rheoli perfformiad effeithiol. Mae ganddi gysylltiadau cynhyrchiol ag ysgolion ar draws ardal ehangach, gan ddarparu hyfforddiant TGCh buddiol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r cyngor a'r cymorth y mae'n eu cael gan yr awdurdod lleol a'r consortiwm; er enghraifft, cyfrannu at asesu gwaith disgyblion yn gywir, a gweithredu strategaethau diddorol ar gyfer addysgu Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2.

## Rheoli adnoddau: Da

Mae pob un o'r staff yn meddu ar gymwysterau a phrofiad addas i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r ysgol yn defnyddio staff addysgu a staff cymorth yn dda i wneud y gorau o'u hamser a'u harbenigedd. Er enghraifft, mae cynorthwywyr addysgu yn cyflwyno rhaglenni ymyrraeth buddiol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad a lles disgyblion targedig, gan gynnwys disgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae trefniadau addas gan yr ysgol ar waith i ddarparu amser cynllunio, paratoi ac asesu ar gyfer athrawon. Mae gan bron yr holl athrawon a staff cymorth fynediad i ystod dda o gyfleoedd hyfforddi, ac mae'r ysgol yn nodi ac yn monitro'r rhain yn effeithiol drwy arfarniadau rheolaidd. Er enghraifft, mae hyfforddiant diweddar yn sicrhau bod yr ysgol yn darparu dull cyson o reoli ymddygiad ac addysgu medrau ffonig.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r grant amddifadedd disgyblion i ddarparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion unigol ac i gefnogi'u lles. Mae hyn wedi arwain at lefelau cyrhaeddiad da ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â disgyblion eraill.

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth gan yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethol, yn rheoli'r gyllideb yn briodol i fodloni'r blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol.

O ystyried y cynnydd a wneir gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ac ansawdd cyson y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6632011 - Ysgol Hiraddug**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 231 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 14.1 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 27 | 27 | 24 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 92.6 | 92.6 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 27 | 24 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.6 | 92.6 | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 25.9 | 29.6 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 27 | 24 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.6 | 92.6 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 29.6 | 29.6 | 29.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 27 | 24 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 37.0 | 37.0 | 58.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6632011 - Ysgol Hiraddug**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 231 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 14.1 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 28 | 34 | 24 | 30 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 92.9 | 85.3 | 91.7 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 28 | 34 | 24 | 30 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.9 | 88.2 | 95.8 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.0 | 26.5 | 41.7 | 30.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 28 | 34 | 24 | 30 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 94.1 | 91.7 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 32.1 | 32.4 | 37.5 | 36.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 28 | 34 | 24 | 30 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 94.1 | 95.8 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 39.3 | 29.4 | 37.5 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion ers Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 108 | 108<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 108 | 108<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 108 | 108<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 108 | 108<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 108 | 108<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 108 | 108<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 108 | 108<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 108 | 108<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 108 | 105<br>97%<br>91% | 3<br>3%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 108 | 107<br>99%<br>95% | 1<br>1%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 108 | 108<br>100%<br>77% | 0<br>0%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 107 | 107<br>100%<br>84% | 0<br>0%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion ers Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 83 | 66 | 17 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 83 | 75 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 83 | 74 | 9 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 83 | 66 | 16 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 80% | 19% | 1% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 82 | 50 | 28 | 4 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 5% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 82 | 61 | 21 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 83 | 62 | 20 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 75% | 24% | 1% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 78 | 43 | 29 | 5 | 1 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 55% | 37% | 6% | 1% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 82 | 62 | 20 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 82 | 63 | 17 | 2 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 77% | 21% | 2% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 82 | 65 | 15 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 79% | 18% | 2% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 69 | 42 | 23 | 3 | 1 | 6 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 61% | 33% | 4% | 1% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 83 | 47 | 28 | 7 | 1 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 57% | 34% | 8% | 1% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 80 | 58<br>72% | 21<br>26% | 0<br>0% | 1<br>1% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 80 | 50<br>62% | 25<br>31% | 5<br>6% | 0<br>0% | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 82 | 58<br>71% | 23<br>28% | 1<br>1% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 61 | 39<br>64% | 20<br>33% | 2<br>3% | 0<br>0% | 14 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 82 | 60<br>73% | 21<br>26% | 1<br>1% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 82 | 67<br>82% | 15<br>18% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Sheila Margaret Birkhead | Arolygydd Cofnodol |
| Rosemarie Wallace | Arolygydd Tîm |
| Peter Duncan Haworth | Arolygydd Lleyg |
| Rachael Sian Connell | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gary Hulson | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.
Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.